RHONDDA CYNON TAF

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**
Cofnodion o gyfarfod hybrid Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd
Dydd Iau, 24 Mawrth 2022 am 3.00 pm

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol**: -

**Siambr y Cyngor**
Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)
Y Cynghorydd R Williams Y Cynghorydd G Hughes

**Zoom**
Y Cynghorydd D Grehan Y Cynghorydd J Barton
Y Cynghorydd P Jarman Y Cynghorydd S Powderhill
Y Cynghorydd J Williams Y Cynghorydd D Williams

**Swyddogion oedd yn bresennol: -**

**Siambr y Cyngor**
Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd

**Zoom**
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol: -**

**Zoom**
Y Cynghorydd M Webber
Y Cynghorydd R Yeo
Y Cynghorydd R Bevan

**240 Croeso ac Ymddiheuriadau**

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Lewis.

**241 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud:

1) Datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Webber fuddiant personol mewn perthynas â Chais 21/1517 – Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd, ardal gemau aml-ddefnydd, cae chwaraeon, maes parcio, gwaith tirlunio, a gwaith seilwaith cysylltiedig (derbyniwyd asesiad trafnidiaeth diwygiedig, cynllun teithio a chynllun fesul cam, yn ogystal ag asesiad Llwybrau Diogel i'r Ysgol, ar 28 Ionawr 2022). YSGOL GYNRADD HEOL Y CELYN, STRYD Y CELYN, RHYDFELEN,

PONTYPRIDD, CF37 5DB

"Rydw i'n llywodraethwr ar gorff llywodraethu Ysgol Gynradd Heol y Celyn ac ar gorff llywodraethu dros dro yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd arfaethedig"

2) Datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman fuddiant personol mewn perthynas â Chais 21/0783 – Caniatâd Adeilad Rhestredig (LBC) ar gyfer gwaith trosi capel yn annedd, stiwdio gelf/ffilmiau, CAPEL SILOA, Y STRYD LAS, GADLYS, ABERDÂR; a Chais 21/0784 – Newid defnydd o gapel i annedd, stiwdio gelf/ffilmiau. CAPEL SILOA, Y STRYD LAS, GADLYS, ABERDÂR

"Rydw i'n adnabod y siaradwr cyhoeddus."

## 242 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

## 243 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

## 244 COFNODION 24.02.22

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 24 Chwefror, 2022 yn rhai cywir.

## 245 NEWID I DREFN YR AGENDA

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei ystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

## 246 CAIS RHIF: 21/0783

**Caniatâd adeilad rhestredig (LBC) ar gyfer gwaith trosi capel yn annedd, stiwdio gelf/ffilmiau, CAPEL SILOA, Y STRYD LAS, GADLYS, ABERDÂR.**

Nododd y Pwyllgor nad oedd David Leslie Davies, a oedd wedi gofyn am gael annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cais, yn bresennol i wneud hynny.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar atgyfeiriad cadarnhaol at CADW.

**247 CAIS RHIF: 21/0784**

**Newid defnydd o gapel i annedd, stiwdio gelf/ffilmiau. CAPEL SILOA, Y STRYD LAS, GADLYS, ABERDÂR.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

**248 CAIS RHIF: 21/1517**

**Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd, ardal gemau aml-ddefnydd, cae chwaraeon, maes parcio, gwaith tirlunio, a gwaith seilwaith cysylltiedig (derbyniwyd asesiad trafnidiaeth diwygiedig, cynllun teithio a chynllun fesul cam, yn ogystal ag asesiad Llwybrau Diogel i'r Ysgol, ar 28 Ionawr 2022). YSGOL GYNRADD HEOL Y CELYN, STRYD Y CELYN, RHYDFELEN, PONTYPRIDD, CF37 5DB.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Cathy Lisles (Gwrthwynebydd). Cafodd bum munud i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod.

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Webber, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi cefnogaeth o'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

Ar yr adeg yma, datganodd y Cynghorydd J Barton fuddiant personol mewn perthynas â Chais 21/1517:

"Rydw i'n adnabod y siaradwr cyhoeddus, Cathy Lisles."

**249 CAIS RHIF: 22/0028**

**Campfa ac adeiladau'r 6ed dosbarth arfaethedig, dymchwel 4 adeilad, maes parcio newydd, a gwaith seilwaith a thirlunio cysylltiedig. YSGOL GYFUN BRYNCELYNNOG, HEOL PENYCOEDCAE, BEDDAU, PONTYPRIDD, CF38 2AE.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Cathy Lisles (Gwrthwynebydd). Cafodd bum munud i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod.

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Yeo, nad yw'n aelod

o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi cefnogaeth o'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

Ar yr adeg yma, datganodd y Cynghorydd J Barton fuddiant personol mewn perthynas â Chais 21/0028:

"Rydw i'n Gadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau sy'n agos i'r datblygiad arfaethedig."

**250 CAIS RHIF: 21/1367**

**Gwaith arfaethedig i adeiladu 5 uned storio/dosbarthu Dosbarth B8 (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 20/12/21). M AND M GARAGES, FFORDD BLEDDYN, FFYNNON TAF, CAERDYDD, CF15 7QR.**

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

(**Nodwch:** Ar yr adeg yma, gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Barton y cyfarfod 16:09))

**251 CAIS RHIF: 21/1434**

**Pont droed newydd arfaethedig i gymryd lle pont droed bresennol Castle Inn. (LBC 21/0714/11) PONT DROED CASTLE INN, STRYD Y CASTELL, TREFFOREST, PONTYPRIDD.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar newid Amodau 2 a 6 i'r canlynol:

**2.** Bydd y datblygiad sy'n cael ei gymeradwyo drwy hyn yn cael ei gyflawni yn unol â'r cynlluniau wedi eu cymeradwyo:

- Cynllun safle'r lleoliad, darlun rhif: GC3913-RED-01-XX-DR-S-0100, Diwygiad T01;
- Cynllun Trefniant Cyffredinol Presennol, rhif y dyluniad GC3913-RED-01-XX-DR-S-0101, Diwygiad T01;
- Pont Arfaethedig – Trefniant Cyffredinol, rhif y dyluniad GC3913-RED-01-XX-DR-S-0103, Diwygiad T01;
- Wal Hyfforddi'r De-ddwyrain – Cynllun Trefniant Cyffredinol Arfaethedig, rhif y dyluniad GC3913-RED-01-RW-DR-S-0102, Diwygiad T01;
- PONT CASTLE INN, ADRODDIAD AROLWG YSTLUMOD, Lluniwyd gan Redstart, Medi 2021, a

- Pont Castle Inn, Trefforest, ADRODDIAD AROLWG DYFRGWN, Lluniwyd gan Redstart, Medi 2021

Rheswm: Sicrhau cydymffurfio â'r cynlluniau a'r dogfennau wedi eu cymeradwyo a diffinio ffiniau'r caniatâd yn glir.

**6.** Yn ogystal â'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Gwaith Adeiladu (CEMP) y cyfeiriwyd ato yn amod 5, ni chaniateir gweithgareddau ar wely'r afon yn ystod y cyfnod gwahardd oherwydd silio pysgod (15 Hydref tan 15 Mai) heb gyflwyno cymeradwyaeth ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm: Gwella a darparu diogelwch ar gyfer rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid yn unol â Pholisïau AW5 ac AW8, Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.

**252 CAIS RHIF: 22/0085**

**Cymeradwyo holl faterion wedi'u cadw'n ôl ar gyfer datblygiad diwydiannol a gweithgynhyrchu yn Llain C5. LLAIN C5, SAFLE CYFLOGAETH STRATEGOL COED-ELÁI, HEOL CWM ELÁI, COED-ELÁI, TONYREFAIL.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar newid Amod 2 i:

Er gwaethaf y manylion sydd i'w gweld ar y cynlluniau sy’n cael eu cymeradwyo drwy hyn, bydd manylion pellach ynghylch gwaith tirlunio'r safle, sy’n ystyried gohebiaeth gan ecolegydd y Cyngor dyddiedig 18 Chwefror 2022, yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo ganddo cyn i'r gwaith ddechrau ar y safle. Bydd manylion o'r fath y cytunir arnyn nhw yn cael eu gweithredu yn y tymor plannu cyntaf ar ôl cwblhau'r datblygiad.

Rheswm: Er budd cynnal bioamrywiaeth y safle yn unol â pholisi AW8 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.

**253 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio, mewn perthynas â Phenderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a oedd wedi dod i law, Ceisiadau wedi eu Cymeradwyo a'u Gwrthod gyda rhesymau trwy'r drefn Penderfyniadau wedi'u Dirprwyo, Crynodeb o'r Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi trwy'r drefn Ddirprwyo ar gyfer y cyfnod 07/03/2022 hyd at 11/03/2022.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.30 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**